Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Rhif: 19/2015

www.cymru.gov.uk

# **Polisïau e-sigaréts:**
# Arolwg o ysgolion yng Nghymru

**Polisïau e-sigaréts:**
Arolwg o ysgolion yng Nghymru

**Krishan Kawol ac Ian Jones**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**

Am wybodaeth bellach cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays, Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost : ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 26 March 2015

ISBN 978 1 4734 3321 2

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

# Cynnwys


Rhestr o dablau a ffigurau 2

**Canfyddiadau allweddol 3**

**1. Cyflwyniad 4**

**2. Dulliau 6**

**3. Canfyddiadau 7**

3.1 Proffil sampl 7

3.2 Ymwybyddiaeth o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle 7

3.3 Polisïau ar wahardd y defnydd o e-sigaréts 8

3.4 Rhesymau dros beidio â chael polisi e-sigaréts 10

3.5 Rhesymau dros gael polisi e-sigaréts 12

3.6 Sut y datblygwyd polisïau e-sigaréts 14

3.7 Pwy mae’r polisïau e-sigaréts yn ei gynnwys 15

3.8 Lleoliadau sy'n dod o dan bolisïau e-sigaréts 16

3.9 Dulliau a ddefnyddir i dynnu sylw at bolisïau 17

3.10 Effeithiolrwydd canfyddedig polisïau e-sigaréts 18

**4. Trafodaeth 20**

Atodiad A: Cwestiynau'r arolwg 23

Atodiad B: Ymatebion yn ôl awdurdod lleol 26

## Rhestr o dablau a ffigurau

### Tablau


| | | |
|---|---|---|
| Tabl B.1 | Ymatebion gan ysgolion cynradd yn ôl awdurdod lleol | 27 |
| Tabl B.2 | Ymatebion gan ysgolion uwchradd yn ôl awdurdod lleol | 28 |


### Ffigurau


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 3.1 | Ydych chi'n ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle? | 8 |
| Ffigur 3.2 | Oes gennych chi bolisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts ar y safle, neu ydych chi'n bwriadu cyflwyno polisi? | 9 |
| Ffigur 3.3 | Os nad oes gennych bolisi o'r fath, pam? | 10 |
| Ffigur 3.4 | Beth yw'r rhesymau dros gael polisi neu ddatblygu polisi? | 13 |
| Ffigur 3.5 | Sut y datblygwyd eich polisi e-sigaréts? | 14 |
| Ffigur 3.6 | Pwy sy’n cael eu cynnwys yn y polisi? | 15 |
| Ffigur 3.7 | Sut mae eich polisi'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol? | 16 |
| Ffigur 3.8 | Dulliau a ddefnyddir i dynnu sylw at bolisïau e-sigaréts eich ysgol | 17 |
| Ffigur 3.9 | Pa mor effeithiol fu eich polisi e-sigarét wrth wahardd y defnydd o e-sigaréts? | 18 |

## Canfyddiadau allweddol

- Cafodd pob ysgol gynradd a phob ysgol uwchradd yng Nghymru ei gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg hwn, a oedd yn anelu at gasglu tystiolaeth am weithredu polisïau e-sigaréts. Derbyniwyd ymatebion gan 13 y cant o ysgolion cynradd (N=177), a 31 y cant o ysgolion uwchradd (N=64).

- Dywedodd tua saith o bob deg ysgol uwchradd (72 y cant) a thraean o bob ysgol gynradd (34 y cant) a ymatebodd fod ganddynt bolisi e-sigaréts eisoes, neu eu bod yn bwriadu datblygu polisi.

- Nid yw mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle gan ddisgyblion, staff nac ymwelwyr.

- Fodd bynnag, dywedodd 17 y cant o ysgolion uwchradd fod disgyblion yn defnyddio e-sigaréts ar safle'r ysgol ar hyn o bryd. Tri y cant yn unig a ddywedodd fod staff ac ymwelwyr yn eu defnyddio.

- Dywedodd tua thraean o'r ysgolion cynradd ac ychydig o dan hanner yr ysgolion uwchradd a oedd yn meddu ar bolisi e-sigaréts eisoes mai pryderon y bydd ysmygu e-sigaréts yn arwain at ysmygu tobaco, neu y bydd yn gwneud ysmygu tobaco'n fwy derbyniol, oedd un o'r rhesymau dros gyflwyno polisi.

- Fodd bynnag, y prif reswm a roddwyd gan ysgolion cynradd (61 y cant) ac ysgolion uwchradd (72 y cant) am gyflwyno polisi e-sigarét oedd er mwyn eu cynorthwyo i orfodi'r gwaharddiad ar ysmygu sy'n bodoli eisoes.

- Mae polisïau e-sigaréts mewn ysgolion cynradd yn canolbwyntio ar staff, ymwelwyr a theuluoedd disgyblion, tra bod polisïau mewn ysgolion uwchradd yn canolbwyntio ar ddisgyblion.

- Oherwydd y negeseuon gwrthdrawiadol ynglŷn ag e-sigaréts, dywedodd rhai ysgolion yr hoffent dderbyn canllawiau clir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar y camau y dylent eu cymryd.

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Papur Gwyn Iechyd Cyhoeddus 'Gwrando arnoch chi – Mae eich iechyd yn bwysig'[1] yn nodi cyfres o gynigion ar gyfer deddfwriaeth i helpu i wella a diogelu iechyd a lles pobl yng Nghymru ymhellach.

Un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yw cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig yng Nghymru. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â phryderon bod defnyddio e-sigaréts yn tanseilio'r rheoliadau di-fwg, a'u gwneud yn fwy anodd eu gorfodi.

Mae hefyd yn adlewyrchu pryderon ymhlith rhai ymarferwyr iechyd cyhoeddus a sefydliadau rhyngwladol fel Sefydliad Iechyd y Byd (SIB)[2] y gallai e-sigaréts ail-normaleiddio ysmygu. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod pobl ifanc yng Nghymru'n defnyddio e-sigaréts[3], ac mae pryderon ymhlith rhai academyddion iechyd cyhoeddus y gallent arwain at ysmygu tobaco[4].

Fodd bynnag, ni dderbynnir y safbwyntiau hyn gan bawb[5], ac mae'r gwahanol ddehongliadau o'r dystiolaeth wedi cael eu crynhoi yn drafodaeth rhwng y rhai sydd o blaid e-sigaréts fel ffordd o leihau niwed tobaco, a'r rhai sy'n fwy gochelgar eu hagwedd[6]

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn a llywio'r broses ddeddfwriaethol, datblygodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein ar bolisïau e-sigaréts, a'r ffordd maent yn cael eu gweithredu mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yng Nghymru. Bwriad yr arolwg oedd rhoi rhywfaint o dystiolaeth sylfaenol i grewyr polisïau ynglŷn ag:

[1] http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/white-paper/?status=closed&lang=cy
[2] Confensiwn Fframwaith SIB ar Reoli Tobaco. Sesiwn chwech, Moscow, Ffederasiwn Rwsia, 13-18 Hydref 2014.
[3] Moore, G.F. et al (2014). 'E-cigarette use and intentions to smoke among 10-11-year-old never-smokers in Wales', *Tobacco Control*, (10.1136/tobaccocontrol-2014-052011).
[4] Gweler, er enghraifft: Dutra, L.M. and Glantz, S.A. (2014). 'Electronic cigarettes and conventional cigarette use among US adolescents:168(7): 610-617.
[5] Gweler, er enghraifft: McNeill, A. et al (2014). 'A critique of a World Health Organization-commissioned report and associated paper on electronic cigarettes', *Addiction*, 109(12): 2128-2134.
[6] Fairchild, A.L. and Bayer, R. (2015). 'Smoke and fire over e-cigarettes', *Science*, 347(6220): 375-376

- ymwybyddiaeth o’r defnydd o e-sigaréts ar safleoedd ysgolion;
- a oes gan ysgolion bolisi e-sigaréts;
- y rhesymau dros benderfynu datblygu polisi, neu beidio â gwneud;
- natur y polisïau a beth maent yn ei gynnwys;
- a oedd ysgolion yn defnyddio polisi er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth ddi-fwg gyfredol; ac
- i ba raddau roedd ysgolion yn credu bod e-sigaréts yn normaleiddio ymddygiad yn ymwneud ag ysmygu, neu'n arwain at ysgmygu tobaco.

## 2. Dulliau

Cafodd pob ysgol gynradd a phob ysgol uwchradd yng Nghymru ei gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg hwn (ceir yr holiadur yn atodiad A). Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Anfonwyd yr arolwg trwy e-bost trwy Rwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru (RhCYIC) at gydlynwyr Ysgolion Iach awdurdod lleol, a gofynnwyd iddynt ddosbarthu'r arolwg i bob ysgol gynradd a phob ysgol uwchradd yn eu hawdurdod. Roedd dolen gyswllt i'r arolwg ar-lein yn yr e-byst, a oedd yn defnyddio meddalwedd SNAP. Dilynwyd yr e-bost cychwynnol gan ddau e-bost atgoffa er mwyn annog ymatebion.

Dyluniwyd yr arolwg fel y gellid ei gwblhau'n gyflym ac er mwyn lleihau'r baich a oedd ar ymatebwyr. Nid oedd meddalwedd yr arolwg yn gorfodi ateb i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau, felly gallai ymatebwyr ddewis i beidio ag ymateb pe bai hynny'n well ganddynt. Roedd nifer o'r cwestiynau yn yr arolwg yn caniatáu i ymatebwyr gynnwys sylwadau pellach, a cheir detholiad o'r rhain yn yr adroddiad er mwyn rhoi cipolwg ar y safbwyntiau a fynegwyd.

Ar y cyfan, rhoddwyd ymatebion gan gydlynwyr RhCYIC mewnol yr ysgolion, a chasglwyd y data rhwng 3 Medi a 24 Hydref 2014. Anfonwyd yr arolwg i gyfanswm o 1,540 o ysgolion yng Nghymru (cynradd = 1,333; uwchradd = 207). Derbyniwyd cyfanswm o 264 o ymatebion cyflawn yn ystod cyfnod yr arolwg. Ar ôl chwynnu'r data o ymatebion anghymwys a dyblyg (er enghraifft, lle na nodwyd statws yr ysgol, neu lle roedd gan ysgolion arbennig statws cynradd ac uwchradd), diystyriwyd 23 o ymatebion. Pan roedd dau ymateb gwrthdrawiadol gan yr un ysgol ynglŷn ag a oedd gan yr ysgol bolisi e-sigarét neu beidio, gwnaed y penderfyniad ceidwadol nad oedd gan yr ysgol bolisi. Roedd y set ddata terfynol a ddadansoddwyd yn cynnwys 241 o ysgolion (cynradd = 177; uwchradd = 64).

Mae'r bennod ganlynol yn cyflwyno canlyniadau a chanfyddiadau'r arolwg ynglŷn â'r defnydd o e-sigaréts a pholisïau yn yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd yng Nghymru a gwblhaodd yr arolwg.

# 3. Canfyddiadau

## 3.1 Proffil sampl

Derbyniwyd cyfanswm o 241 o ymatebion dilys i'r arolwg. Roedd hyn yn cynnwys 177 o ysgolion cynradd a 64 o ysgolion uwchradd (cyfradd ymateb o 13 y cant a 31 y cant yn ôl eu trefn).

Ceir nifer yr ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a ymatebodd yn ôl awdurdod lleol yn Atodiad B.


## 3.2 Ymwybyddiaeth o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar safle eu hysgolion.

Dywedodd y mwyafrif o ysgolion cynradd (92 y cant) nad oeddent yn ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio gan ddisgyblion, staff nac ymwelwyr. Ni ddywedodd yr un ysgol gynradd fod ganddynt ddisgyblion sy'n defnyddio e-sigaréts, a dim ond un y cant a ddywedodd bod staff neu ymwelwyr yn eu defnyddio ar y safle.

Dywedodd ychydig dros hanner yr ysgolion uwchradd nad oeddent yn ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle ar y pryd neu yn y gorffennol (54 y cant). Fodd bynnag, dywedodd 17 y cant fod ganddynt ddisgyblion sy’n defnyddio e-sigaréts ar y safle (Ffigur 3.1) ar hyn o bryd.

Ffigur 3.1: Ydych chi'n ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle?




N=241 (Cynradd =177; uwchradd N = 64)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.


### 3.3 Polisïau ar wahardd y defnydd o e-sigaréts

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd gan eu hysgolion bolisi sy’n gwahardd y defnydd o e-sigaréts, a oeddent wrthi'n datblygu polisi neu'n bwriadau cyflwyno polisi.

Roedd cyfanswm o un o bob pump o ysgolion cynradd (20 y cant) eisoes wedi datblygu polisi. Roedd 14 y cant pellach wrthi'n datblygu polisi, ac nid oedd y ddau draean arall wedi ystyried cyflwyno polisi, neu roeddent wedi penderfynu peidio â chyflwyno un.

Roedd gan ychydig o dan hanner yr ysgolion uwchradd (45 y cant) bolisi e-sigarét ar waith. Dywedodd 27 y cant pellach eu bod wrthi'n datblygu polisi, a dywedodd canran debyg (28 y cant) nad oeddent wedi ystyried datblygu polisi (Ffigur 3.2).

**Ffigur 3.2: Oes gennych chi bolisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts ar y safle, neu ydych chi'n bwriadu cyflwyno polisi?**




N=241 (Cynradd =177; Uwchradd N = 64)

Roedd sylwadau ychwanegol a roddwyd yn cynnwys rhesymau dros beidio ag ystyried polisïau e-sigaréts, a'r dymuniad am fwy o wybodaeth am y pwnc gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

> "Wnes i ddim ystyried polisi ar wahân ar gyfer e-sigaréts [...] bues i'n cymryd yn ganiataol bod ein polisi cyfredol ar ysmygu'n cynnwys e-sigaréts." **Ysgol gynradd**

> "Byddwn yn gwerthfawrogi neges glir a chyson gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater hwn." **Ysgol gynradd**


> "Mae ein hysgol ni wedi mabwysiadu polisi'r Cyngor Sir ac nid ydym wedi cael problemau ynglŷn ag ysmygu yma, na chydag e-sigaréts." **Ysgol gynradd**

### 3.4 Rhesymau dros beidio â chael polisi e-sigaréts

Gofynnwyd i ysgolion nad oeddent wedi ystyried polisi, neu wedi penderfynu peidio â chyflwyno polisi, beth oedd y rheswm dros hyn. O restr o atebion gosod, y rheswm a roddwyd gan y mwyafrif o ysgolion cynradd oedd nad oeddent y credu bod e-sigaréts yn broblem yn yr ysgol (75 y cant). Dywedodd tua chwarter (29 y cant) nad oeddent wedi cael yr amser i ddatblygu polisi hyd yn hyn.

Y rheswm a roddwyd gan y mwyafrif o ysgolion uwchradd oedd nad oeddent yn credu bod e-sigaréts yn broblem yn yr ysgol (83 y cant), tra bod 17 y cant heb gael yr amser i ddatblygu polisi hyd yn hyn (Ffigur 3.3).

**Ffigur 3.3: Os nad oes gennych bolisi o'r fath, pam?**




N=134 (Cynradd =117; Uwchradd = 17)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

Roedd sylwadau gan ysgolion cynradd yn esbonio ymhellach pam nad oes ganddynt bolisi ar e-sigaréts, a llawer ohonynt yn dweud nad ydynt yn eu hystyried yn broblem:

> "Ar ben yr holl ystyriaethau eraill, nid wyf yn credu bod yn rhaid i ysgolion cynradd gyflwyno polisi ar e-sigaréts. Byddwn yn chwilfrydig iawn i weld y dystiolaeth wyddonol ar y mater." **Ysgol gynradd**
>
> Mae gennym bolisi di-fwg nad yw'n ystyried defnyddio e-sigaréts. Pe baem yn darganfod eu bod yn cael eu defnyddio'n helaeth ar safle'r

ysgol yn y dyfodol, neu pe bai deddfwriaeth newydd ar waith, byddem yn arolygu ein polisi cyfredol. **Ysgol gynradd**

"Er nad oes gennym bolisi penodol ynglŷn â'r mater hwn hyd y gwn i, wrth reswm nid ydym yn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio e-sigaréts." **Ysgol gynradd**

"Rydym o'r farn bod e-sigaréts yn ddefnyddiol o ran cefnogi pobl i roi'r gorau i ysmygu tobaco, neu i ysmygu llai.  Ond fel ysgol nid ydym eisiau hyrwyddo unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag ysmygu." **Ysgol gynradd**

Roedd sylwadau pellach gan ysgolion uwchradd yn dweud, hyd yn oed heb bolisi, byddent yn ymdrin ag e-sigaréts mewn ffordd debyg i sigaréts tobaco:

"Ymdrinnir ag e-sigaréts yn yr un modd ag ymdrinnir â sigaréts traddodiadol o ran eu defnydd ar safle'r ysgol." **Ysgol uwchradd**

"Nid yw hyn yn rhywbeth rydym wedi'i ystyried a bod yn onest. Mae gennym waharddiad ar ysmygu wrth gwrs, ond nid oes neb wedi'i herio trwy ddefnyddio e-sigaréts" **Ysgol uwchradd**

### 3.5 Rhesymau dros gael polisi e-sigaréts

Gofynnwyd i ysgolion sydd â pholisi e-sigaréts, neu sy'n bwriadu cyflwyno un, beth oedd y rhesymau dros hynny.. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis nifer o resymau o restr o atebion gosod.


Dywedodd tua chwech o bob deg ysgol gynradd (61 y cant) fod y polisi wedi cael ei ddatblygu er mwyn helpu i orfodi'r polisi ysmygu cyfredol. Dywedodd tua hanner ohonynt mai oherwydd eu bod eisiau trin ysmygu tobaco a defnyddio e-sigaréts yn yr un modd(49 y cant), neu oherwydd bod e-sigaréts yn efelychu ysmygu tobaco (47 y cant).

Dywedodd tua thraean ohonynt mai'r gred y byddai e-sigaréts yn arwain at ysgmygu tobaco, neu'n gwneud ysmygu tobaco'n fwy derbyniol oedd y rheswm dros y polisi.

Dywedodd tua thri chwarter o'r ysgolion uwchradd sydd â pholisi, neu sy'n bwriadu cyflwyno un (72 y cant) mai helpu i orfodi eu polisi ysmygu cyfredol oedd bwriad y polisi, a dywedodd dau draean (67 y cant) eu bod eisiau ymdrin ag ysmygu tobaco a defnyddio e-sigaréts yn yr un ffordd.

Dywedodd ychydig o dan hanner ohonynt fod ganddynt bolisi am fod ganddynt bryderon y gallai e-sigaréts arwain at ysgmygu sigaréts tobaco, a dau o bob pump yn dweud eu bod yn pryderu y bydd yn gwneud ysmygu tobaco'n fwy derbyniol (Ffigur 3.4).

**Ffigur 3.4: Beth yw'r rhesymau dros gael polisi e-sigaréts neu ddatblygu polisi?**




N=106 (Cynradd =60; Uwchradd = 46)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

Roedd sylwadau ychwanegol yn esbonio bod polisi e-sigaréts wedi ei ddatblygu yn sgil cyngor gan gydlynwyr Ysgolion Iach. Roedd sylwadau eraill yn mynegi pryderon ynglŷn â deall pa ddull y dylid ei ddefnyddio wrth ymdrin ag e-sigaréts, ac yn codi cwestiynau ynglŷn â'r gyfraith a phobl o dan 18 oed.

> "Yn sgil ein harolwg Ysgolion Iach diwethaf, awgrymodd Swyddog Ysgolion Iach y sir y dylem greu polisi e-sigaréts, neu eu cynnwys yn ein polisi cyfredol ar gamddefnyddio sylweddau." **Ysgol gynradd**

> "Mae'r negeseuon gan sefydliadau iechyd cyhoeddus a llywodraeth leol yn wrthdrawiadol ac rydym yn ceisio cyngor gan Lywodraeth Cymru." **Ysgol gynradd**

> "Rydym wedi cael ar ddeall bod [defnyddio] e-sigaréts [7] yn anghyfreithlon i bobl o dan 18 oed." **Ysgol uwchradd**


[7] Nid yw defnyddio e-sigaréts gan bobl o dan 18 oed yn anghyfreithlon, er bod llawer o werthwyr e-sigaréts yn gweithredu cod ymddygiad gwirfoddol i beidio â'u gwerthu i bobl o dan 18 oed.

### 3.6 Sut y datblygwyd polisïau e-sigaréts

Gofynnwyd i ysgolion a oedd â pholisi e-sigaréts eisoes sut y gwnaethant ei ddatblygu. Dywedodd y mwyafrif o ysgolion cynradd i'r polisïau gael eu datblygu trwy ymestyn polisi di-fwg cyfredol (71 y cant) a dywedodd 26 y cant eu bod wedi dilyn templed safonol.

Dywedodd y mwyafrif o ysgolion uwchradd i'r polisïau gael eu datblygu trwy ymestyn y polisi di-fwg cyfredol (79 y cant). Nid oedd yr un o'r ysgolion cynradd na'r ysgolion uwchradd wedi datblygu polisi penodol ar gyfer e-sigaréts (Ffigur 3.5).

**Ffigur 3.5: Sut y datblygwyd eich polisi e-sigaréts?**





N=64 (Cynradd =35; Uwchradd = 29)

### 3.7 Pwy mae’r polisïau e-sigaréts yn ei gynnwys

Roedd pob ysgol a oedd â pholisi wedi cynnwys aelodau o staff yn y polisi, a bron pob un yn cynnwys ymwelwyr a theuluoedd. Roedd canran lai o bolisïau (69 y cant) yn cynnwys disgyblion. Roedd naw y cant o’r ymatebwyr hefyd wedi cyfeirio yn benodol at bobl eraill yn eu polisïau, gan gynnwys 'oedolion eraill' a 'myfyrwyr ar leoliad'.

Roedd polisïau bron pob ysgol uwchradd yn cynnwys disgyblion, a'r mwyafrif yn cynnwys y staff ac ymwelwyr. Roedd canran lai o bolisïau'n cynnwys teuluoedd disgyblion (Ffigur 3.6).

**Ffigur 3.6: Pwy sy’n cael ei gynnwys yn y polisi?**





N=64 (Cynradd =35; Uwchradd = 29)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

### 3.8 Lleoliadau sy'n dod o dan bolisïau e-sigaréts

Dywedodd bron pob ysgol gynradd a oedd â pholisi fod eu polisïau'n cynnwys mannau o dan do yn adeiladau'r ysgol neu diroedd yr ysgol yn ystod oriau ysgol, ac adeiladau’r ysgol y tu i oriau ysgol. Yn ogystal, roedd y mwyafrif o bolisïau ysgolion cynradd yn cynnwys cerbydau preifat ar diroedd yr ysgol, a digwyddiadau oddi ar diroedd yr ysgol. Roedd tua hanner yn cynnwys bysiau'r ysgol.

Roedd polisïau bron pob ysgol uwchradd yn cynnwys adeiladau'r ysgol neu diroedd yr ysgol yn ystod oriau ysgol, ond i raddau llai y tu allan i oriau ysgol. Roedd tua thri chwarter o bolisïau ysgolion uwchradd yn cynnwys cerbydau preifat ar diroedd yr ysgol a digwyddiadau oddi ar diroedd yr ysgol. Roedd tua wyth o bob deg yn cynnwys bysiau'r ysgol (Ffigur 3.7).

**Ffigur 3.7: Sut mae eich polisi'n gwahardd y defydd o e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol?**




N=64 (Cynradd =35; Uwchradd = 29)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.


### 3.9 Dulliau a ddefnyddir i dynnu sylw at bolisïau

Gofynnwyd i ysgolion a oedd â pholisi e-sigaréts sut roeddent yn tynnu sylw disgyblion, staff ac ymwelwyr ato.

Cyfathrebu â staff ar lafar, llythyrau ysgol a chyhoeddiadau ar wefan yr ysgol oedd y dulliau mwyaf poblogaidd o dynnu sylw at y polisi ar gyfer tua hanner yr ysgolion cynradd.

Fodd bynnag ar gyfer ysgolion uwchradd, cyfathrebu â myfyrwyr ar lafar (69 y cant) a chyhoeddi'r polisi ar wefan yr ysgol (66 y cant) oedd y dulliau mwyaf poblogaidd, fel y dengys Ffigur 3.8.

**Ffigur 3.8: Dulliau a ddefnyddir i dynnu sylw at bolisïau e-sigaréts eich ysgol**




N=64 (Cynradd =35; Uwchradd = 29)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

Yn ôl sylw gan un ysgol gynradd roedd yr ysgol wedi anfon llythyrau at rieni penodol a welwyd yn ysmygu e-sigaréts ar safle'r ysgol. Roedd sylwadau

ychwanegol ynglŷn â sut roedd ysgolion uwchradd yn tynnu sylw at eu polisïau e-sigaréts yn cynnwys:


> "[Mae'r polisi] yn rhan o'r broses recriwtio lle y cytunir bod pob math o ysmygu wedi'i wahardd ym mhob rhan o diroedd yr ysgol."
> **Ysgol uwchradd**
>
> "Wedi'i ledaenu ar lafar – gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol, sesiynau un i un, sesiynau grŵp bach." **Ysgol uwchradd**

### 3.10 Effeithiolrwydd canfyddedig polisïau e-sigaréts

Gofynnwyd i bob ysgol a oedd â pholisi pa mor effeithiol fu'r polisi wrth wahardd y defnydd o e-sigaréts. Roedd dau draean (66 y cant) o'r ysgolion cynradd â pholisi yn credu bod eu polisi wedi bod yn effeithiol iawn, a dim ond tri y cant a oedd yn credu nad oedd wedi bod yn effeithiol. Dywedodd bron traean o'r ymatebwyr ei bod yn rhy gynnar i ddweud.

Roedd tua hanner yr ysgolion uwchradd â pholisi (55 y cant) yn credu ei fod wedi bod yn effeithiol iawn, a thri o bob deg (28 y cant) yn credu ei fod wedi bod yn rhannol effeithiol. Dywedodd tuag un o bob pump (17 y cant) o'r ysgolion uwchradd ei bod yn rhy gynnar i ddweud (Ffigur 3.9).

**Ffigur 3.9: Pa mor effeithiol fu eich polisi e-sigaréts wrth wahardd y defnydd o e-sigaréts?**




N=64 (Cynradd =35; Uwchradd = 29)

Ychydig o sylwadau ychwanegol yn unig a gafwyd ynglŷn ag effeithiolrwydd eu polisïau e-sigaréts. Yn ôl un ymatebwr:

> “Ar ôl gweld nifer o enghreifftiau o ddefnyddio e-sigaréts, codwyd y mater trwy'r penaethiaid blwyddyn a'r Uwch Dîm Arwain mewn gwasanaethau, a thynnwyd sylw at ein safbwynt (bod e-sigaréts, fel sigaréts wedi'u gwahardd). O ganlyniad gwelwyd cryn dipyn llai o achosion o ddefnyddio e-sigaréts." **Ysgol gynradd**

## 4. Trafodaeth

Roedd yr arolwg hwn wedi'i gynllunio er mwyn asesu i ba raddau mae ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi cyflwyno polisïau ar e-sigaréts. Roedd y gyfradd ymateb yn weddol ar gyfer arolwg ar-lein (yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd) a rhoddodd yr arolwg wybodaeth nad oedd ar gael yn flaenorol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nifer o gyfyngiadau. Dewiswyd cynnal yr arolwg ar-lein oherwydd prinder amser ac adnoddau a oedd ar gael er mwyn ymgymryd â'r ymchwil. Mae cyfraddau ymateb ar gyfer arolygon ar-lein yn tueddu i fod yn is na dulliau arolwg eraill fel y dull wyneb yn wyneb neu gyfweliadau dros y ffôn[8]. Yn ogystal mae'r posibilrwydd o dueddiad hunanddewis yn y data a dderbynir[9]. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn, felly, yn perthyn i'r ysgolion a gymerodd ran yn unig, ac nid yw o reidrwydd yn gynrychiadol o bob ysgol yng Nghymru (yn enwedig yn achos ysgolion cynradd lle roedd y gyfradd ymateb is). Mae'n bwysig hefyd nodi maint bach y sampl pan fydd dadansoddiadau'n cael eu cyfyngu i grwpiau o ysgolion (er enghraifft, dim ond y rhai sydd eisoes â pholisi ar waith). Mewn achosion o'r fath, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau.

Dywedodd y mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd nad oeddent yn ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar safle'r ysgol. Fodd bynnag, dywedodd bron un o bob pum ysgol uwchradd eu bod yn cael eu defnyddio ar y safle gan ddisgyblion ar hyn o bryd, a dywedodd tua chwarter fod e-sigaréts yn arfer cael eu defnyddio ar safle’r ysgol gan ddisgyblion yn y gorffennol. Mae'n bosibl bod y gostyngiad hwn mewn defnydd oherwydd cyflwyniad polisïau e-sigaréts a'u gorfodi mewn ysgolion uwchradd, ond ni chafwyd y wybodaeth hon yn eglur yn yr arolwg.

Er bod rhai ysgolion yn sôn bod disgyblion yn defnyddio e-sigaréts, nid oedd hynny'n wir mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn awgrymu mai rhywbeth a

[8] Manfreda, K.L. et al (2008). ‘Web surveys versus other survey modes: A meta-analysis comparing response rates’, *International Journal of Market Research*, 50: 79-104.
[9] Bethlehem, J. (2010). ‘Selection bias in web surveys’, *International Statistical Review*, 78(2), 161-188.

welir yn bennaf ymhlith plant dros 11 oed ydyw. Yn ôl pob golwg, mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y polisïau ar e-sigaréts, gydag ysgolion cynradd yn canolbwyntio ar staff ac ymwelwyr, a pholisïau ysgolion uwchradd yn canolbwyntio ar ddisgyblion i raddau helaethach.

Fel y byddid ei ddisgwyl, mae'n bosibl bod y defnydd mwy o e-sigaréts mewn ysgolion uwchradd wedi annog y mwyafrif ohonynt i ddatblygu polisi. Roedd ysgolion uwchradd ddwywaith yn fwy tebygol, o ran cyfran, o fod wedi ystyried cyflwyno polisi nag yr oedd ysgolion cynradd. Roedd bron yr holl ysgolion a gymerodd ran a chanddynt bolisi wedi'i ddatblygu fel estyniad o'u polisi di-fwg cyfredol.

Y rheswm a roddwyd gan ryw draean o ysgolion cynradd ac ychydig o dan hanner yr ysgolion uwchradd dros ddatblygu polisi oedd pryderon ynglŷn â sgil effeithiau posibl defnyddio e-sigaréts – fel y posibilrwydd eu bod yn arwain at ysgmygu tobaco neu eu bod yn normaleiddio ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ysmygu. Fodd bynnag, dywedodd cyfran fwy o ysgolion a ymatebodd (ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd) eu bod yn poeni am orfodi eu polisïau di-fwg cyfredol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r canfyddiadau hyn yn rhoi tystiolaeth bod e-sigaréts yn arwain ysmygu tobaco na'i normaleiddio. Mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach i'r defnydd o e-sigaréts cyn y gellir gwneud unrhyw gasgliadau.

Dywedodd y mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd nad oedd ganddynt bolisi am nad oeddent yn credu bod e-sigaréts yn broblem yn yr ysgol. Roedd rhai ysgolion yn cwestiynu'r angen am bolisi gan eu bod yn credu bod e-sigaréts yn dod o dan y polisi di-fwg cyfredol. Yn ogystal, oherwydd yn negeseuon gwrthdrawiadol ynglŷn ag e-sigaréts, dywedodd rhai ysgolion yr hoffent dderbyn canllawiau clir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r camau y dylent eu cymryd.

Dylid dehongli ymatebion i'r cwestiwn am effeithiolrwydd canfyddedig polisïau e-sigaréts yn ofalus, gan ei bod yn bosibl bod ymatebion i'r cwestiwn yn amrywio yn sylweddol oherwydd dealltwriaeth oddrychol o'r hyn sy'n gwneud polisi effeithiol. Er enghraifft, roedd rhai ysgolion uwchradd a ddywedodd fod

disgyblion yn defnyddio e-sigaréts ar safle ar hyn o bryd hefyd yn dweud bod eu polisïau'n 'effeithiol iawn'. Os cynhelir yr arolwg hwn, neu ymchwil arall, eto yn y dyfodol er mwyn monitro’r gwaith o weithredu polisïau e-sigaréts mewn ysgolion, bydd angen gwneud ymchwil i sut mae effeithiolrwydd polisïau'n cael ei asesu.

Efallai y bydd monitro’r gwaith o weithredu polisïau e-sigaréts yn y dyfodol, yng nghyd-destun ehangach polisïau ac arferion ysgolion, yn werthfawr i grëwyr polisïau. Byddai cynnal yr arolwg eto hefyd yn rhoi'r cyfle i gasglu data gan gyfran sylweddol o ysgolion sy'n ystyried datblygu polisi ar hyn o bryd.

**Atodiad A: Cwestiynau'r arolwg**

Mae hwn yn arolwg byr ynglŷn â pholisïau e-sigaréts a bydd yn cymryd tua phum munud i'w gwblhau.

Diffiniad o e-sigaréts: dyfais yw e-sigarét, sydd â'r brif swyddogaeth o darthu cyfuniad o gemegau a'u cludo i ysgyfaint y defnyddiwr. Mae cyfuniad nodweddiadol yn cynnwys nicotin, propylen glycol a chemegau eraill – er bod rhai yn honni nad oes nicotin ynddynt. Mae steiliau gwahanol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio. Mae rhai wedi'u dylunio i edrych fel eu cymheiriaid traddodiadol (tobaco) (e.e., sigaréts, sigarau, sigarilos, pibau, hŵcas a shishas) ac mae eraill, yn ôl disgrifiadau, yn edrych yn debyg i ysgrifbin.

C1 Ydych chi'n ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio yn eich ysgol?
(dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Ydyn, gan ddisgyblion ar hyn o bryd ☐
- Ydyn, gan staff a/neu ymwelwyr ar hyn o bryd ☐
- Ydyn, gan ddisgyblion yn y gorffennol ☐
- Ydyn, gan staff ac/neu ymwelwyr yn y gorffennol ☐
- Nac ydyn ☐

C2 Oes gan eich ysgol bolisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts?

- Oes, polisi penodol ar gyfer e-sigaréts ☐Ewch i C4
- Oes, fel estyniad o'r polisi ysmygu a chamddefnyddio sylweddau ☐Ewch i C4
- Nac oes, ond rydym wrthi'n datblygu polisi ☐Ewch i C4
- Nac oes, ond rydym yn bwriadu datblygu polisi yn y dyfodol ☐Ewch i C4
- Nac oes, nid ydym wedi ystyried polisi hyd yn hyn ☐Ewch i C3
- Nac oes, rydym wedi penderfynu yn erbyn cyflwyno polisi e-sigaréts ☐Ewch i C3

C3 Os nad oes gan eich ysgol bolisi e-sigaréts ar hyn o bryd, pam?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Nid ydym yn ystyried bod e-sigaréts yn broblem yn yr ysgol ☐
- Mae e-sigaréts yn llai niweidiol nag ysgmygu tobaco ☐
- Rydym yn cefnogi’r defnydd o e-sigaréts fel modd o roi'r gorau i ysmygu ☐
- Nid ydym wedi cael amser hyd yn hyn ☐

Ewch i C10

C4 Beth yw rhesymau eich ysgol dros ddatblygu polisi?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Er mwyn ein helpu i orfodi ein polisi ysmygu cyfredol ☐
- Hoffem ymdrin ag ysmygu tobaco ac e-sigaréts yn yr un modd ☐
- Rydym yn credu bod e-sigaréts yn niweidiol i iechyd ☐
- Rydym yn pryderu y bydd e-sigaréts yn arwain at ysgmygu tobaco ☐
- Rydym yn pryderu y bydd e-sigaréts yn gwneud ysmygu tobaco'n fwy derbyniol ☐
- Mae e-sigaréts yn debyg i ysmygu tobaco ☐

- Rydym yn dilyn polisi'r Awdurdod Lleol/ysgolion eraill ☐
- Arall ☐

Rhowch fanylion

____________________________________________

C5 Sut y gwnaethoch chi ddatblygu eich polisi e-sigaréts?

- Yn benodol ar gyfer e-sigaréts yn ein hysgol ☐
- Trwy ddefnyddio templed safonol ☐
- Rydym wedi ymestyn ein polisi cyfredol ar ysmygu a chamddefnyddio sylweddau i gynnwys e-sigaréts. ☐
- Arall ☐

Rhowch fanylion

____________________________________________

C6 Pwy sy’n cael ei gynnwys yn y polisi?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Staff yr ysgol ☐
- Disgyblion ☐
- Teuluoedd disgyblion ☐
- Ymwelwyr, gan gynnwys contractwyr ☐
- Arall ☐

Rhowch fanylion

____________________________________________

C7: Ydy polisi eich ysgol yn gwahardd y defydd o e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Adeiladau'r ysgol yn ystod oriau ysgol ☐
- Adeiladau'r ysgol y tu allan i oriau ysgol ☐
- Tiroedd yr ysgol yn ystod oriau ysgol ☐
- Tiroedd yr ysgol y tu allan i oriau ysgol ☐
- Cerbydau preifat ar diroedd yr ysgol ☐
- Bysiau'r ysgol ☐
- Digwyddiadau'r ysgol oddi ar diroedd yr ysgol ☐
- Arall ☐

Rhowch fanylion

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

C8 Pa un o'r dulliau canlynol sy'n cael eu defnyddio i dynnu sylw at bolisi e-sigaréts eich ysgol?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Llythyr ysgol ☐
- Cyfathrebu â staff ar lafar, e.e. cyfarfodydd staff ☐
- Cyfathrebu â disgyblion ar lafar, e.e. gwasanaethau ☐
- Cyfathrebu â rhieni ar lafar, e.e. nosweithiau rhieni ☐

- Cyhoeddiadau ar wefan yr ysgol ☐
- Dulliau electronig eraill, e.e. e-bost i ddisgyblion ☐
- Dulliau ysgrifenedig eraill, e.e. llawlyfr y myfyrwyr ☐
- Posteri/arwyddion o amgylch yr ysgol ☐

Arall ☐
Rhowch fanylion

___

___

___

C9 Gyda synnwyr trannoeth, pa mor effeithiol fu eich polisi e-sigarét wrth wahardd y defnydd o e-sigaréts?

- Yn effeithiol iawn ☐
- Yn rhannol effeithiol ☐
- Heb fod yn effeithiol ☐
- Yn rhy gynnar i ddweud ☐

Esboniwch pam

___

C10 Beth yw enw eich ysgol?

___

C11 Ydy'ch ysgol yn ysgol gynradd neu'n ysgol uwchradd?

- Cynradd ☐
- Uwchradd ☐

C12 Beth yw enw eich awdurdod lleol?

- Blaenau Gwent ☐
- Pen-y-bont ar Ogwr ☐
- Caerffili ☐
- Caerdydd ☐
- Sir Gaerfyrddin ☐
- Ceredigion ☐
- Conwy ☐
- Sir Ddinbych ☐
- Sir y Fflint ☐
- Gwynedd ☐
- Ynys Môn ☐
- Merthyr Tudful ☐
- Sir Fynwy ☐
- Castell-nedd Port Talbot ☐
- Casnewydd ☐
- Sir Benfro ☐
- Powys ☐
- Rhondda Cynon Taf ☐
- Abertawe ☐
- Bro Morgannwg ☐
- Torfaen ☐
- Wrecsam ☐

Q13 Oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

___

## Atodiad B: Ymatebion gan yr awdurdod lleol

### Tabl B.1: Ymatebion gan ysgolion cynradd yn ôl awdurdod lleol

| **Awdurdod Lleol** | **Nifer yr ymatebion i'r arolwg** |
|---|---:|
| Powys | 25 |
| Wrecsam | 21 |
| Caerffili | 15 |
| Casnewydd | 15 |
| Sir Gaerfyrddin | 14 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 12 |
| Sir Ddinbych | 11 |
| Torfaen | 9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 8 |
| Blaenau Gwent | 7 |
| Ynys Môn | 7 |
| Sir Fynwy | 7 |
| Abertawe | 7 |
| Caerdydd | 6 |
| Sir Benfro | 6 |
| Ceredigion | 2 |
| Gwynedd | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 2 |
| Bro Morgannwg | 1 |
| Conwy | 0 |
| Sir y Fflint | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 |
| **CYMRU** | **177** |
| Cyfradd ymateb | 13% |

**Tabl B.1: Ymatebion gan ysgolion uwchradd yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | **Nifer yr ymatebion i'r arolwg** |
|---|---:|
| Sir Ddinbych | 8 |
| Casnewydd | 7 |
| Powys | 7 |
| Caerffili | 5 |
| Torfaen | 5 |
| Sir Gaerfyrddin | 4 |
| Caerdydd | 4 |
| Gwynedd | 4 |
| Bro Morgannwg | 4 |
| Wrecsam | 3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 |
| Ceredigion | 2 |
| Ynys Môn | 2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 2 |
| Blaenau Gwent | 1 |
| Sir Fynwy | 1 |
| Sir Benfro | 1 |
| Conwy | 0 |
| Sir y Fflint | 0 |
| Abertawe | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 |
| **CYMRU** | **64** |
| Cyfradd ymateb | 31% |